



Cyflawni'r Her

Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog



Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 006/2008

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2008

Yn disodli Cylchlythyr Rhif: 034/2007



National Association
for Able Children
in Education
Cymru

Cyflawni'r Her

- Cynulleidfa** Awdurdodau Addysg Lleol a phob ysgol a gynhelir yng Nghymru; llywodraethwyr ysgolion, rhieni a sefydliadau sydd â diddordeb.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen ganllaw hon wedi ei chynllunio i ddarparu cyngor i ysgolion ac AALLau ar gwrdd ag anghenion addysgol disgyblion mwy galluog a thalentog. Nod y Safonau yn y canllawiau hyn yw helpu ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog fel rhan o agenda gwella'r ysgol gyfan.
- Camau i'w cymryd** Dim - er gwybodaeth.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen ymgynghori hon at:
Rhian Jones
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1042
Ffacs: 029 2080 1044
E-bost: education.training@wales.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Rhian Jones
Ffôn: 029 2080 1042
Ffacs: 029 2080 1044
E-bost: education.training@wales.gsi.gov.uk
- Dogfennau cysylltiedig** 'Cwricwlwm o Gyfle,' ACCAC (2003)
Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005)

Diolchiadau

Datblygwyd y Safonau Ansawdd yn y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (Cymru). Diolch yn fawr iaw'n i Johanna Raffan, Cyfarwyddwr NACE a Val Scott, Cadeirydd NACE Cymru. Mae'r Safonau yn seiliedig ar Ddyfarniad Her NACE "Provision for Able, Gifted and Talented pupils: A Self Evaluation Framework for Schools and Local Authorities" a ysgrifennwyd ac a ddatblygwyd gan Heather Clements, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, Cyngor Harrow ac Elaine Ricks, Ymgynghorydd Gwella Ysgolion, Gorllewin Berkshire mewn cydweithrediad â NACE.

Rhagair

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anelu at ddatblygu Cymru fel 'gwlad sy'n dysgu' lle mae cyfle ac anogaeth i bob plentyn a pherson ifanc wneud y gorau posibl o'u galluoedd. Dymunwn i'n disgyblion gael cychwyn cadarn mewn bywyd, y cyfle i gyflawni eu llawn botensial, a hawl bendant i ddylanwadu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Nid oes un diffiniad, y mae pawb wedi cytuno arno, o ddisgyblion y byddid yn gyffredinol yn eu hasesu fel rhai 'mwy galluog'. Gall y disgrifiadau ohonynt gynnwys athrylith, talentog, hynod alluog, disglair iawn, gallu uchel, galluog iawn a mwy galluog. Yng Nghymru yr ydym wedi mabwysiadu'r term 'mwy galluog a thalentog' i ddisgrifio disgyblion y mae arnynt angen mwy o gyfle i gyfoethogi ac ymestyn eu galluoedd nag a ddarperir i'r mwyafrif o ddisgyblion. Bydd disgyblion mwy galluog, o gael cyfleoedd estynedig, nid yn unig yn gallu darganfod ond hefyd yn gallu datblygu eu talentau. Mae'r term 'mwy galluog a thalentog' yn cwmpasu disgyblion mwy galluog ym mhob maes o'r cwricwlwm yn ogystal â disgyblion sy'n arddangos talent mewn un neu fwy o feysydd penodol neu gryfderau mewn arweinyddiaeth, gwaith tîm a sgiliau entrepreneuriaeth.

Mae'r Safonau hyn wedi cael eu datblygu er mwyn cynorthwyo ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol i ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog. Maent yn ategu'r canllawiau a gyhoeddwyd gan ACCAC yn 2003, "Cwricwlwm o Gyfle". Yn y canllawiau hyn yr ydym yn ystyried sut y gallai ysgolion ac AALI ddatblygu ethos o gefnogaeth a fydd yn diwallu anghenion pob disgybl heb wahaniaethu ar sail emosiynol, cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol, corfforol na deallusol.

Mae'r ysgolion sy'n debygol o gyflawni'r safonau hyn yn debyg o allu dangos fod ganddynt weithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro a hunan werthuso eu gwaith er mwyn codi safonau ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog. Bydd arolygwyr Estyn yn cymryd y gwaith hwn i ystyriaeth wrth arolygu ysgolion ac AALI.

Mae'n rhaid caniatáu i bob disgybl ddarganfod ei botensial trwy gwricwlwm o gyfle. Wedyn bydd yn bosibl meithrin galluoedd a thalentau trwy gwricwlwm mwy cyfoethog a phrofiadau dysgu estynedig. Gan hynny bydd darparu ar gyfer anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog yn fuddiol i bob disgybl.

Rwyf yn gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn werthfawr.



Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Y Tair Lefel Mynediad	12
Cyflawni'r Her - Y Safonau Ansawdd	15
Gweithredu'r Safonau	20
Atodiad 1 - Offeryn Hunan Werthuso	23
Safon 1	Strategaeth ar gyfer yr ysgol gyfan, gan gynnwys polisi a chynllun gweithredu er mwyn cynnal disgyblion mwy galluog a thalentog
Safon 2	Strategaethau a meini prawf ar gyfer dynodi
Safon 3	Targed ar gyfer gwella darpariaeth yr ysgol a pherfformiad disgyblion mwy galluog a thalentog
Safon 4a	Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o wahanol arddulliau dysgu, dulliau addysgu a strategaethau trefniadol i ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog
Safon 4b	Mae'r cwricwlwm yn ddigon eang, dwfn a hyblyg i ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog
Safon 4c	Mae'r ddarpariaeth yn rhoi sylw i ofal bugeiliol disgyblion mwy galluog a thalentog
Safon 5	Adolygiadau rheolaidd i ganfod unrhyw dangyflawni ac i gynnig cymorth i ddisgyblion unigol
Safon 6	Ymrwymiad i wella sgiliau holl staff yr ysgol er mwyn diwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog
Safon 7	Rhaglenni i gefnogi disgyblion eithriadol o alluog

Safon 8	Ystod o adnoddau priodol gan gynnwys Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Safon 9a	Gwrando ar farn pobl ifanc mwy galluog a thalentog a'i chymryd i ystyriaeth gan eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain
Safon 9b	Gwrando ar farn rhieni/gofalwyr pobl ifanc mwy galluog a thalentog a'i chymryd i ystyriaeth, gan eu cadw yn hysbys a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am gefnogi dysgu eu plentyn tu allan i'r ysgol
Safon 9c	Gweithio gyda phartneriaid er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog
Safon 10	Gweithdrefnau ar gyfer monitro'r cynllun gweithredu ac effeithiolrwydd polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog

Atodiad 2 - Cynllun Gweithredu

40

Cyflwyniad

'Mae gan bob dysgwr anghenion dysgu unigol, ac mae angen amrediad o ddulliau gweithredu er mwyn diwallu'u hanghenion. Ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, y cyfle i wireddu'u potensial, a hawl amlwg i ddylanwadu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Rydym yn cydnabod bod anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol dysgwyr yn ffactorau o bwys o ran rhoi cyfle iddynt fanteisio ar gyfleoedd dysgu.'

Cymru - Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid

1. Mae'n nod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu Cymru fel 'gwlad sy'n dysgu' lle rhoddir cyfleoedd ac anogaeth i bob unigolyn gyflawni ei lawn botensial o safbwynt dysgu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i feithrin lefelau uchel o gyflawniad ar gyfer ei holl ddisgyblion:

2. Ym mis Gorffennaf 2003 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddogfen ymgynghori *'Addysgu Disgyblion sy'n Fwy Galluog a Thalentog: Cyfarwyddyd ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol'*. Yr oedd yr ymgynghori'n canolbwyntio ar:

- **Diffiniad:** o safbwynt creu diffiniad cynhwysol yng Nghymru;
- **Nodau ac amcanion y Canllawiau mewn perthynas ag AALL:** yn hybu arferion cynhwysol a chyfle cyfartal ac yn egluro ystyriaethau mewn perthynas â dynodi, asesu a darpariaeth;
- **Dynodi:** gan drafod ystod o wahanol ddulliau gweithredu a gweithdrefnau y gall AALL eu gweithredu er mwyn cefnogi ysgolion i adnabod eu disgyblion mwy galluog a thalentog;
- **Darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog:** archwilio gwahanol arddulliau o ddysgu ac addysgu, cyplysu darpariaeth ag anghenion unigol, gweithgareddau allgwrwicwlaidd a phartneriaethau;
- **Rheoli darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog:** disgrifio rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas ag AALL; a
- **Chanllawiau rheoli ar gyfer AALL:** ffyrdd y gall AALL fonitro, asesu a gwerthuso eu strategaethau eu hunain.

3. Yn 2003, cyhoeddodd ACCAC *Cwricwlwm o Gyfle: Datblygu Potensial yn Berfformiad*, sef canllawiau i ysgolion ynglŷn â diwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog. Roeddent yn cynnwys canllawiau manwl i ysgolion ynglŷn ag ystod o wahanol ystyriaethau gan gynnwys sut i adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog, arddulliau dysgu, trefnu grwpiau dysgu, cyfleoedd tu allan i'r dosbarth, a datblygu polisi ysgol effeithiol.

Mae'n bwysig bod yr AALI yn mabwysiadu rôl arweiniol i gefnogi ysgolion i ddatblygu arfer dda, ac yn codi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod bodloni anghenion disgyblion mwy galluog yn arwain at safonau uwch i bawb.'

Cwricwlwm o Gyfle 2003

4. Mae'r canllawiau hyn yn ategu 'Cwricwlwm o Gyfle' ac yn rhoi cyngor i Awdurdodau Addysg Lleol sut i gefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr mwy galluog a thalentog. Mae hefyd yn anelu at wella a chefnogi'r ddogfennaeth a'r gweithdrefnau sydd eisoes wedi cael eu sefydlu gan rai Awdurdodau Addysg Lleol.

Diffiniad

5. Mae'r canllawiau hyn yn arddel y diffiniadau o ddisgyblion 'mwy galluog a thalentog' a nodir yn *Cwricwlwm o Gyfle: Datblygu Potensial yn Berfformiad*. Yng Nghymru mae'r term 'mwy galluog a thalentog' yn cwmpasu tuag 20% o gyfanswm poblogaeth yr ysgolion. Defnyddir y term i ddisgrifio disgyblion y mae arnynt angen cyfleoedd mwy cyfoethog ac estynedig ar draws y cwricwlwm er mwyn datblygu eu galluoedd mewn un neu ddau o feysydd. Ym mhob ysgol fe fydd grŵp o ddisgyblion y mae arnynt angen mwy o ehangder a dyfnder yn eu gweithgareddau dysgu nag a ddarperir yn arferol i'r mwyafrif o ddysgwyr yn yr un flwyddyn â hwy.

6. Mae gallu a thalent yn gallu amlygu ei hun mewn nifer o wahanol ffyrdd er enghraifft mewn gweithgareddau academaidd, ymarferol, creadigol a chymdeithasol. Ni ellir gwahanu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog oddi wrth yr ymdrech i godi safonau ar gyfer pob disgybl. Mae ymchwil yn dangos bod ysgolion sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion mwy galluog a thalentog yn gwella ansawdd dysgu a safonau cyflawniad yr holl ddisgyblion.

Swyddogaeth yr AALI

7. Swyddogaeth yr AALI yw cefnogi ysgolion i helpu pob disgybl, gan gynnwys y rhai yr ystyrir eu bod yn fwy galluog a thalentog i gyflawni eu llawn botensial o safbwynt dysgu.

8. Gall AALI gefnogi ysgolion i **datblygu eu darpariaeth** trwy ddarparu:

- hyfforddiant mewn swydd i uwch reolwyr, cydgysylltwyr, arweinwyr cwricwlar ac athrawon dosbarth;
- adnoddau o ansawdd dda, gan gynnwys cyfeiriadau at wefannau perthnasol;
- cysylltiadau gydag asiantaethau allanol er enghraifft y celfyddydau, busnesau;

- cyfleoedd i arweinwyr y cwricwlwm a rheolwyr ysgol rannu arferion da i wneud darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog; a
- chyfleoedd hyfforddi a chymorth i lywodraethwyr ysgol ddatblygu eu dealltwriaeth ynglŷn ag adnabod a darparu ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog.

9. Gall AAL helpu ysgolion i **ymestyn eu darpariaeth** ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog trwy:

- fonitro a gwerthuso effaith darpariaeth yr ysgol a'r awdurdod addysg lleol ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog;
- dod o hyd i ffynonellau cyllid a all gefnogi datblygu'r ddarpariaeth ymhellach;
- annog cynllunio ar y cyd a defnyddio adnoddau i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn er enghraifft grwpiau o ysgolion, consortiau AAL, ysgolion haf; a
- hybu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn trwy weithio ar y cyd gydag ysgolion ac mewn partneriaeth gyda grwpiau a darparwyr lleol a chenedlaethol eraill.

10. Gall AAL helpu ysgolion i **gyflawni safonau uchel** a hybu gwelliannau yn yr ysgol trwy:

- ddarparu gwybodaeth berthnasol i ysgolion er mwyn eu hannog i gynnig heriau priodol i ddisgyblion mwy galluog a thalentog;
- darparu help a chynghor ynglŷn ag arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion, rhedeg y cwricwlwm, addysgeg a phontio mewn perthynas â'r disgyblion hyn a lledaenu arferion gorau;
- rhestru a hybu gwelliannau mewn ysgolion lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yn achos pryder; a
- rhoi cynghor a chefnogaeth i rieni ac athrawon ynglŷn â gwneud darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog.

11. Gall AAL roi cefnogaeth i ysgolion **adnabod** disgyblion mwy galluog a thalentog trwy ddarparu:

- canllawiau a hyfforddiant ar gyfer athrawon a rheolwyr ysgol ynglŷn ag amrywiaeth o wahanol ddulliau o asesu ac ynglŷn â defnyddio gwybodaeth asesu;

- gwybodaeth i ysgolion ynglŷn â chyflawniad disgyblion a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadnabod, yn arbennig ar ôl iddynt symud o un ysgol i'r llall;
- adborth perthnasol i ysgolion fel y gallant ddatblygu eu harferion; a
- chanllawiau a chefnogaeth penodol i asesu disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd.

12. Er mwyn gofalu bod anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog o wahanol grwpiau cymdeithasol-economaidd a grwpiau lleiafrifoedd yn cael eu diwallu, dylai AALI hybu trefniadau ar gyfer nodi ac asesu anghenion ac ar gyfer darpariaeth ddilydol sydd ar gael i'r un graddau i blant:

- a addysgir mewn ysgolion prif ffrwd;
- a addysgir mewn lleoedd heblaw ysgolion;
- sydd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig;
- sy'n deithwyr;
- sy'n derbyn gofal gan y gyfundrefn;
- sydd ag anghenion ychwanegol neu anabledau;
- y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt;
- sy'n cael eu haddysgu 'y tu allan i'r sir'; ac
- sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol.

13. Er mwyn **darparu cefnogaeth gyson a chydlynol** i ysgolion ddatblygu a gweithredu darpariaeth effeithiol ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog mae angen i Awdurdodau Addysg Lleol:

- sefydlu polisi'r AALI ynglŷn ag addysgu dysgwyr mwy galluog a thalentog;
- datblygu'r polisi mewn partneriaeth ag ysgolion;
- sicrhau bod y polisi ar gael i'r holl bartneriaid perthnasol i addysg y disgyblion hynny;
- annog a helpu ysgolion i ddatblygu a gweithredu eu polisi ysgol eu hunain mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog;

- monitro a gwerthuso effaith polisi'r AALL ar arferion a safonau; ac
- adolygu'r polisi yn rheolaidd.

14. Wrth **ystyried strategaethau a datblygu polisi** dylai AALL ystyried:

- sut i godi ymwybyddiaeth athrawon a'u gallu i adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog ac ymateb iddynt;
- sut i ddefnyddio data AALL, yr ysgol a data am y disgybl unigol er mwyn cynorthwyo'r dasg o adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog;
- pa hyfforddiant sydd ei angen mewn ysgolion er mwyn dehongli'r data drostynt eu hunain;
- canllawiau ynglŷn â gweithredu polisiau'r ysgolion ynglŷn â darparu ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog;
- sut i adnabod a delio â thangyflawni disgyblion;
- swyddogaethau a chyfrifoldebau'r AALL mewn perthynas â rhieni, dysgwyr a llywodraethwyr;
- sut y gellir monitro a gwerthuso'r polisi.

15. Dylai'r awdurdod addysg lleol **fonitro sut mae'r polisi yn cael ei weithredu a pha mor effeithiol yw'r polisi** yn rheolaidd trwy:

- fonitro i ba raddau y mae amcanion strategaethau yr Awdurdod yn cael eu cyflawni;
- dadansoddi cynnydd disgyblion sy'n cyflawni'n uchel trwy ddefnyddio ystod o wahanol ddangosyddion;
- adolygiadau blynyddol ar y cyd o safonau a darpariaeth yr ysgol a wneir gan ymgynghoriadau rheoli perfformiad a phenaethiaid;
- adolygu adroddiadau arolygu Estyn;
- dadansoddi unrhyw bryderon neu gwynion sydd gan rieni ynglŷn â'r ddarpariaeth;
- adolygu cyfranogiad athrawon mewn hyfforddiant perthnasol; ac
- adolygu unrhyw ychwanegiad a wnaed at yr ystod o ddarpariaeth o fewn yr awdurdod.

16. Mae Atodiad 1 yn cynnwys **fframwaith hunan werthuso** ar gyfer ysgolion. Dylai Awdurdodau Addysg Lleol edrych ar ffyrdd o gefnogi ysgolion i weithredu a datblygu'r canlynol:

- polisi ysgol gyfan sy'n cael ei weithredu'n effeithiol (Safon 1);
- nodi disgyblion yn gywir (Safon 2);
- olrhain cyraeddiadau disgyblion yn rheolaidd, gan gynnwys mewn cyfnodau pontio (Safon 3);
- ystod o ddulliau dysgu gwahanol i adlewyrchu anghenion dysgu'r disgyblion, cwricwlwm digon eang a hyblyg a gofal bugeiliol priodol (Safon 4);
- gweithdrefnau clir i ganfod unrhyw dangyflawni gan gynnwys targedau a nodau dysgu (Safon 5);
- rhaglen datblygiad proffesiynol sy'n cynnwys ffocws ar addysgu a dysgu ac sy'n adlewyrchu anghenion unigol staff (Safon 6);
- strategaethau i gefnogi disgyblion eithriadol o alluog e.e. cyfleoedd cwricwlaidd ychwanegol neu wahanol (Safon 7);
- adnoddau priodol gan gynnwys TGCh a chyfleoedd i gyflawni dysgu annibynnol (Safon 8);
- cymryd barn rhieni/gofalwyr a barn disgyblion mwy galluog a thalentog i ystyriaeth a gweithio gyda phartneriaid er mwyn hybu'r ddarpariaeth (Safon 9);
- gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y polisi ysgol-gyfan (Safon 10).

Y Ddarpariaeth mewn Ysgolion

17. Wrth wraidd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion galluog y mae'r gydnabyddiaeth bod ysgolion yn darparu cyfleoedd addysgol, gan gydnabod fod gan bob disgybl ystod o alluoedd, talentau ac anghenion dysgu. Mae angen i ddisgyblion gael ystod o gyfleoedd a heriau er mwyn gwneud y gorau o'u talentau a'u sgiliau yn y dosbarth a'r tu allan. Mae'n rhaid cydnabod unrhyw dangyflawni yn ogystal â sicrhau bod anghenion disgyblion eithriadol o alluog yn cael eu diwallu. Bydd hyn yn effeithio ar hyfforddi staff gan y bydd rhaid cymhwyso pob athro i ddatblygu talentau a galluoedd y disgyblion hyn. Er y bydd hynny'n dipyn o her, bydd

Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn darparu ethos sy'n herio stereoteipiau negyddol am ddisgyblion mwy galluog a thalentog, yn ogystal â systemau bugeiliol effeithiol i gefnogi eu hanghenion personol, cymdeithasol ac emosiynol. Dylai ysgolion fod yn wyliadwros a cheisio dod o hyd i blant sy'n tangyflawni, yn enwedig ymysg grwpiau a all fod dan anfantais.

Cwricwlwm o Gyfle, 2003

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer bodloni anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog felly o fantais i bob disgybl.

Cwricwlwm o Gyfle 2003

y gwaith hwn yn asio â'r gwahanol ymagweddau at addysgu a dysgu sy'n cael eu datblygu gan ysgolion a bydd yn codi'r disgwyliadau ar gyfer disgyblion.

18. Bydd disgyblion 14-19 oed mwy galluog a thalentog yn gallu manteisio ar gyfleoedd estynedig a gynigir trwy bolisi Llwybrau Dysgu Llywodraeth y Cynulliad. Fe ddylai fod gan bob dysgwr llwybr dysgu unigol sy'n diwallu ei anghenion ei hun, ac a allai gynnwys rhyw gymaint o ddarpariaeth mewn ysgol neu sefydliad dysgu gwahanol. Dylai'r Rhwydweithiau 14-19 yn ardal pob awdurdod lleol ofalu y gwneir darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog yn y grŵp oedran hwn.

Cyflawni'r Her - Safonau Ansawdd

19. Datblygwyd y Safonau sydd yn y canllawiau hyn er mwyn cefnogi ysgolion trwy osod fframwaith clir ar gyfer y ddarpariaeth ansawdd ysgol-gyfan ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog. Bydd y Safonau yn helpu ysgolion i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer eu darpariaeth a byddant yn sicrhau bod eu dull gweithredu yn un cynhwysol. Bydd y Safonau yn cwmpasu pob agwedd ac yn cefnogi dull ysgol-gyfan o godi safonau. Mae arolygiadau wedi dangos bod ysgolion sy'n gwneud darpariaeth dda ar gyfer disgyblion galluog, yn gyffredinol yn gwneud darpariaeth dda ar gyfer yr holl ddisgyblion gan eu bod yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn ar draws yr holl gwricwlwm.

Llwyddiant i Bawb

20. Mae ymchwil wedi dangos mai ffenomenau sy'n datblygu yw gallu uchel a thalent ac fe all fod llanw a thrai dros gyfnod o amser. Er mwyn i bobl ifanc ddal ati i fod yn llwyddiannus mae angen hefyd iddynt gredu ynddynt eu hunain, dal ati a bod yn ddigon dewr i gymryd risg. Bydd amgylchedd addysgol cyfoethog yn helpu i roi siâp i'r agweddau hyn at ddysgu gan ddatblygu symbyliad hanfodol, cywreinrwydd a chariad at ddysgu a fydd yn galluogi pobl ifanc i ddelio â'r hyn y mae Renzulli (1995) yn ei alw'n "ymrwymiad i dasgau" a fydd yn eu galluogi i lwyddo mewn bywyd. Mae'r Safonau hyn yn disgrifio sut y gall ysgolion fynd ati i sicrhau bod pob disgybl yn cael y profiad addysgol a fydd yn eu harwain ymlaen i gyflawni hynny mewn bywyd.

Y Tair Lefel Mynediad

21. Wrth ddatblygu darpariaeth o ansawdd dda ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog, ni fydd pob ysgol yn cychwyn o'r un fan felly gellir defnyddio'r Safonau hyn yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion y gwahanol ysgolion.

Gellir defnyddio'r Safonau ar dair lefel:

1. fel offeryn datblygu
2. fel offeryn archwilio/cynllunio gweithredu
3. fel offeryn asesu

Y Safonau fel Offeryn Datblygu

22. I ysgolion sydd yn y camau cynnar o ddatblygu darpariaeth ysgol-gyfan ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog, bydd y Safonau yn gosod strwythur a chyfeiriad clir ar gyfer cynllunio mwy hirdymor. Bydd y Safonau yn gymorth i gynllunio ac yn creu cysylltiadau gwerthfawr â chynlluniau dysgu ac addysgu ysgol-gyfan eraill sy'n rhan o gynllun datblygu'r ysgol. Bydd ysgol sydd yn y Cyfnod Datblygu yn debygol o fod yn rhannu rhai o'r nodweddion canlynol:

- Nid yw ei pholisi ysgol gyfan ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yn un diweddar neu nid yw wedi cael ei lunio hyd yn hyn a dim ond wrthi'n datblygu y mae'r ddarpariaeth archwilio. Nid yw'r uwch dîm rheoli/ cydgysylltydd wedi gwneud archwiliad llawn o'r ysgol na'r pynciau hyd yn hyn nac wedi datblygu cynllun gweithredu.
- Nid yw'r ysgol hyd yn hyn yn nodi disgyblion mwy galluog a thalentog ac mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn brin. Mae'n bosibl bod y math hwn o ddarpariaeth yn cael ei gysylltu â gallu academiaidd yn unig.
- Mae'n bosibl na chynhaliwyd trafodaethau gyda staff na'r adrannau i gyd ynglŷn â'r cwestiwn o ddisgyblion galluog ac nid yw'r monitro a wneir o ddydysgu ac addysgu na'r gwaith olrhain disgyblion yn canolbwyntio'n ffurfiol ar ddisgyblion galluog ar draws yr holl gwricwlwm
- Mae'n bosibl nad yw'r syniad o dangyflawni, gan gynnwys tangyflawni'r disgyblion galluog iawn, yn cael ei gydnabod ar sail ysgol-gyfan.

23. Diben cyffredinol y Safonau yw rhoi i ysgolion fecanwaith a fydd yn eu galluogi i ddatblygu strategaeth ysgol-gyfan, gan gynnwys

cynllun gweithredu, er mwyn cynnal darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog. Ar y cychwyn, mae'n bosibl y bydd ysgolion sydd yn y Cyfnod Datblygu eisiau defnyddio'r Safonau i'w hybu i weithredu ymhellach er mwyn datblygu eu darpariaeth, gan ganolbwyntio ar rai meysydd allweddol penodol. Serch hynny, mae'n bwysig trafod y cwestiynau allweddol ynglŷn â nodi a darparu (fel yr amlinellir hwy yn "Goresgyn Anawsterau") cyn gynted â phosibl fel y gall staff ystyried oblygiadau hynny i'w gwaith addysgu o ddydd i ddydd.

24. Unwaith bod trafodaethau gyda'r holl staff wedi digwydd mae'n bosibl y bydd yr ysgolion yn gweld eu bod yn symud ymlaen yn eithaf sydyn drwy'r Cyfnod Datblygu o ran rhai safonau, cyn bo hir byddant yn barod i symud i'r cam nesaf a defnyddio'r Safonau i archwilio ac er mwyn sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer gwelliannau i'r ysgol gyfan.

Y Safonau fel Offeryn Archwilio/Cynllunio Gweithredu

25. Bydd ysgolion sydd eisoes wedi datblygu polisiau ac arferion ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yn barod i ddefnyddio'r Safonau er mwyn archwilio'r ysgol gyfan. Bydd yr archwiliad yn cydnabod yr arferion da sydd eisoes yn bodoli, ond bydd yn dynodi camau ychwanegol y gellir eu cymryd er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd dda drwy'r ysgol-gyfan. Gweler Atodiad 2.

Y Safonau fel Offeryn Asesu

26. Bydd ysgolion sydd wedi bod yn datblygu darpariaeth o ansawdd dda a chynlluniau gweithredu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yn gallu defnyddio'r Safonau er mwyn gwneud asesiad parhaus o'u darpariaeth fel rhan o'u hasesiad a hunan werthusiad parhaus.

Y Wobr Her

Mae'r Safonau a gynhwysir yn y canllawiau hyn wedi cael eu datblygu gan y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE) ac wedi cael eu haddasu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Maent wedi cael eu treialu mewn ysgolion ar draws Cymru a Lloegr ac wedi cael eu datblygu a'u mireinio er mwyn helpu ysgolion i wella eu hunain ac i wella'r cymorth sydd ar gael ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog.

Mae NACE hefyd yn cynnig cyfle i ysgolion ennill nod ansawdd ar sail y Safonau hyn. Enw'r cynllun hwn yw "Y Wobr Her." Mae'r wobwr yn cael ei rhoi i ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cydnabod ac yn rhoi bri i ddarpariaeth ansawdd ysgol-gyfan i ddisgyblion mwy galluog a thalentog. Mae deg gwahanol elfen yn y Wobr sy'n cyfateb i'r Safonau a nodir yn y canllawiau hyn ac sy'n gosod fframwaith ysgol-gyfan ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion galluog hynny yn barhaus. Mae'r Elfennau hyn yn cwmpasu'r holl feysydd allweddol sy'n effeithio ar ddysgu'r disgyblion mwy galluog a thalentog ac er mwyn ennill y Wobr byddai'n rhaid i ysgol roi tystiolaeth ei bod yn gallu bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mhob Safon. Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael oddi wrth:

NACE National Office
PO Box 242
Arnold's Way
Rhydychen
OX2 9FR

Ffôn: 01865 861879
Ffacs: 01865 861880
e-bost: info@nace.co.uk
www.nace.co.uk Elusen Gofrestredig Rhif 3272

Cyflawni'r Her - Y Safonau Ansawdd

Safon 1: Strategaeth ysgol-gyfan, gan gynnwys cynllun gweithredu i gynnal disgyblion mwy galluog a thalentog

27. Bydd llwyddiant y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yn dibynnu ar ddatblygu dull o weithredu trwy'r ysgol gyfan ac ar ddeall sut i ddiwallu anghenion y disgyblion hynny. Bydd Cynllun Gweithredu'r ysgol yn egluro sut y bydd ysgolion yn rheoli a datblygu darpariaeth. Gellir defnyddio'r meini prawf, a fydd yn gysylltiedig â'r dystiolaeth a awgrymwyd, fel fframwaith archwilio. Mae'n bosib y bydd cysylltiad rhwng y Safonau a gynhwysir yng nghynlluniau gweithredu'r ysgolion a'r strategaeth ddysgu ac addysgu yn ogystal â'r Cynllun Datblygu Ysgol (*Cwricwlwm o Gyfle Adran 6*).

Safon 2: Dynodi strategaethau a meini prawf

28. Bydd angen adnabod y disgyblion mwy galluog a thalentog er mwyn creu cyfleoedd a darpariaeth briodol. Bydd angen i'r ysgolion fod ag ystod eang o strategaethau asesu er mwyn sicrhau bod pob math o allu yn cael ei gydnabod a bod talentau mewn chwaraeon a'r celfyddydau yn ogystal â gallu mewn pynciau academiaidd yn cael eu hadnabod (*Cwricwlwm o Gyfle Adran 2*).

Safon 3: Targed o wella darpariaeth yr ysgol a pherfformiad y disgyblion mwy galluog a thalentog

29. Dylai'r cynllun gweithredu ysgol-gyfan i ddarparu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog ei gwneud yn glir pa welliannau y bydd gweithredu'r cynllun yn eu hachosi. Bydd y canlyniadau hynny yn rhai meintiol ac yn rhai ansoddol. Er enghraifft fe allai ysgolion anelu at ehangu rhaglenni allgwricwlaidd, neu wella lefelau cyrhaeddiad y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd targedau disgyblion unigol yn rhan bwysig o dystiolaeth y Safon a bydd rhaid i'r ysgolion ddangos eu bod yn olrhain cynnydd y disgyblion mwy galluog a thalentog. Mewn rhai achosion, bydd angen i ysgolion dargedu perfformiad y disgyblion hynny (*Cwricwlwm o Gyfle Adran 6*).

Safon 4a: Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o arddulliau dysgu, dulliau addysgu, a strategaethau trefniadol er mwyn diwallu anghenion y disgyblion mwy galluog a thalentog

Safon 4b: Mae'r cwricwlwm yn ddigon eang, dwfn a hyblyg i ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog

Safon 4c: Mae'r ddarpariaeth yn rhoi sylw i ofal bugeiliol disgyblion mwy galluog a thalentog yn ogystal â'u hanghenion dysgu

30. Mae gosod her yn eu dysgu o ddydd i ddydd yn rhan ganolog o ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog. Bydd tystiolaeth yn dangos bod yr addysgu yn ysgogi, yn gosod her, yn adlewyrchu asesiad ar gyfer egwyddorion dysgu, ac yn gwahaniaethu'n briodol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr. Mae'n rhaid hefyd i ddisgyblion gael y cyfle i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol. Mae angen tystiolaeth o ddatblygu staff rheolaidd sy'n canolbwyntio ar wella anghenion dysgu ac addysgu. Dylai'r cwricwlwm fod yn ddigon eang, cytbwys a hyblyg i roi ystyriaeth i anghenion dysgu personol y disgyblion mwy galluog a thalentog. Bydd cyngor gyrrfaol a chynhaliaeth fugeiliol o ansawdd uchel yn sicrhau bod disgyblion mwy galluog a thalentog yn gallu gwneud penderfyniadau sydd yn ddigon uchelgeisiol, ac sy'n eu helpu i gyflawni eu lles emosiynol (*Cwricwlwm o Gyfle Adrannau 1, 3, 4*).

Safon 5: Adolygiadau rheolaidd i ganfod unrhyw dangyflawni ac i gynnig cynhaliaeth i ddisgyblion unigol

31. Un rhan bwysig o sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i bob disgybl yw cydnabod fod rhai disgyblion sydd, am wahanol resymau, yn methu â chyflawni eu llawn botensial. Er mwyn bodloni'r Safon hon, bydd yn rhaid i ysgolion ddangos eu bod nid yn unig yn trafod ac adolygu cynnydd y disgyblion mwy galluog a thalentog yn rheolaidd, ond bod ganddynt weithdrefnau clir i adnabod tangyflawni. Bydd yn rhaid i'r disgyblion hyn gael

targedau neu nodau dysgu penodol. Mae gan ormod o ddisgyblion alluoedd neu dalentau sy'n datblygu'n annigonol trwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol am resymau cymdeithasol neu bersonol, neu efallai oherwydd diffyg darpariaeth dda a disgwyliadau isel. Weithiau mae hyn yn digwydd oherwydd bod disgyblion yn ymddangos fel pe baent wedi dadrithio gydag ysgol a bod diffyg symbyliad iddynt. Weithiau maent yn bodloni ar wneud "dim mwy na digon" er mwyn cuddio eu rhagoriaeth. Hefyd mae rhai disgyblion sydd â galluoedd nad ydynt yn cael eu cydnabod gan eu bod wedi cael eu cuddio y tu ôl i rwystrau dysgu er enghraifft dyslecsia, dyscalcwlia, neu am fod Cymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (*Cwricwlwm o Gyfle Adran 2*).

Safon 6: Ymrwymiad i wella sgiliau holl staff yr ysgol er mwyn diwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog

32. Er mwyn datblygu darpariaeth o ansawdd ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog, mae'n hollbwysig bod y staff yn cael eu hyfforddi i ddeall anghenion y disgyblion mwy galluog a thalentog a sut i ddarparu ar eu cyfer yn y dosbarth bob dydd. Mae gwaith ymchwil yn dangos na all y disgyblion hyn wneud cynnydd heb iddynt gael modd i ddysgu. Gyda darpariaeth benodol ac arweiniad gan oedolion bydd y disgyblion yn dysgu yn llawer cyflymach na'u cyfoedion. Mae angen i bob pwnc yn y cwricwlwm gynnis cyfleoedd dysgu ar lefel uchel yn y dosbarth. Rhaid i athrawon gael amrywiaeth eang o ddulliau dysgu, gan allu herio'r disgyblion trwy ofyn cwestiynau treiddgar a dysgu trwy ddatrys problemau. Rhaid i athrawon helpu disgyblion i adfyfrio ynglŷn â'u gwaith dysgu a'u gwaith meddwl eu hunain hefyd, fel bod y disgyblion yn gwybod ym mha ffordd y maent yn dysgu orau. Rôl cydgysylltydd yr ysgol ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog fydd sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu trwy'r rhaglen datblygu staff (*Cwricwlwm o Gyfle Adrannau 1,3,4,5*).

Safon 7: Mae gan yr ysgol raglenni i gefnogi disgyblion eithriadol o alluog

33. Bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn gallu diwallu anghenion disgyblion eithriadol o alluog trwy ddarpariaeth ansawdd uchel sydd yn eu cwricwlwm cyffredinol, ond fe fydd adegau pan fydd angen darparu cynhaliaeth trwy greu cysylltiadau gyda sefydliadau eraill, trwy gymorth pwnc arbennig, neu drwy fentoriaid dysgu.

Ar gyfer y safon hon, bydd rhaid i ysgolion ddangos bod ganddynt strategaethau i ddarparu ar gyfer disgyblion eithriadol o alluog a'u bod yn cydnabod y posibilrwydd na ellid diwallu anghenion y disgyblion hynny heb ymyriad ar ffurf cymorth (*Cwricwlwm o Gyfle Diffiniad ac Adran 5*).

Safon 8: Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau priodol gan gynnwys TGCh

34. Mae'n bwysig i athrawon gael mynediad at yr adnoddau priodol i ddarparu ar gyfer gwahaniaethu a gweithgareddau ymestyn a chyfoethogi. Dylai'r deunyddiau dysgu ac addysgu hybu ymagwedd at ddysgu gweithredol sy'n herio ffyrdd o feddwl y disgyblion. Hefyd dylai adnoddau adlewyrchu'r ffaith bod disgyblion yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn gallu datblygu eu sgiliau dysgu annibynnol. Mae rôl TGCh wedi dod yn fwyfwy pwysig trwy roi mynediad i ddisgyblion mwy galluog a thalentog i gyfleoedd dysgu ar-lein. Er mwyn cyflawni'r Safon hon bydd yn rhaid i ysgolion ddangos eu bod wedi gwneud archwiliad o adnoddau o fewn yr ysgol (*Cwricwlwm o Gyfle Adrannau 1,3,4,5*).

Safon 9a: Gwrando ar farn pobl ifanc fwy galluog a thalentog a'i chymryd i ystyriaeth gan eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

Safon 9b: Gwrando ar farn rhieni/gofalwyr pobl ifanc fwy galluog a thalentog a'i chymryd i ystyriaeth, gan eu cadw yn hysbys a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am gefnogi dysgu eu plentyn y tu allan i'r ysgol

Safon 9c: Gweithio gyda phartneriaid er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog

35. Un o'r ffyrdd pwysicaf y gall ysgolion werthuso eu llwyddiant mewn darparu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yw ymgynghori â hwy i gael eu barn, a gweithredu ar sail yr hyn sy'n ganddynt i'w ddweud. Bydd y disgyblion hyn yn tueddu i gyflawni'n dda oherwydd eu gallu naturiol, ond mae'n bosibl barnu a ydynt yn cael eu herio'n ddigonol i gyflawni eu hamcanion gorau

posibl trwy ymgynghori'n onest ac yn rheolaidd â'r disgybl. Mae'n hanfodol dwyn rhieni neu ofalwyr i mewn i'r broses fel y gallant gefnogi dysgu'r disgyblion mwy galluog a thalentog. Bydd rhai rhieni eisiau help a chyngor ynglŷn â chefnogi plentyn galluog iawn. Mae rhieni hefyd yn ffynhonnell o wybodaeth am alluoedd a thalentau sy'n eu hamlygu eu hunain yn eu plentyn y tu allan i'r ysgol. Trwy wybod bod eu plentyn wedi cael ei ddynodi'n blentyn mwy galluog y mae rhieni yn gallu annog eu plentyn i wneud ei orau ac i gredu ynddo'i hun. Hyd yn oed os nad yw'r rhieni eisiau bod yn gyfrannog fe ddylent ddal i gael gwybodaeth am ymagwedd yr ysgol tuag at gynnal disgyblion mwy galluog a thalentog, ac am y cyfleoedd sydd ar gael. Bydd rhai ysgolion yn gweithio gydag ystod o wahanol bartneriaid er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Mae angen i bartneriaethau weithio ar y cyd i sicrhau bod profiadau dysgu disgyblion mwy galluog a thalentog yn ystyrlon ac o ansawdd uchel yn gyson. Dylai adnoddau gael eu dosbarthu ar draws partneriaid er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i ddysgwyr mwy galluog a thalentog. (*Cwricwlwm o Gyfle Adran 2, Atodiad 5*).

Safon 10: Gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro'r cynllun gweithredu ac effeithiolrwydd polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog

36. Mae'n bwysig monitro a golygu cynlluniau gweithredu yn rheolaidd er mwyn asesu effeithiolrwydd y polisi ysgol-gyfan. Er mwyn cyflawni'r Safon hon, bydd yn rhaid i'r ysgolion ddangos y bydd y polisi yn cael ei adolygu a bod dysgu ac addysgu yn cael eu monitro trwy nifer o wahanol ffyrdd. Mae siarad â disgyblion yn ffordd werthfawr o werthuso'r ddarpariaeth. Mae angen i lywodraethwyr gymryd rhan yn y broses hon hefyd a dylent wybod yn iawn am bolisi'r ysgol o ddarparu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog (*Cwricwlwm o Gyfle Adran 6*).

Gweithredu'r Safonau

Gellir cryfhau'r gwaith o gydlynu arfer a darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog trwy enwebu aelod o staff fel 'pleidiwr'. Bydd angen cefnogaeth uwch reolwyr ar y cydlynnydd i gyflawni cyfrifoldebau yn effeithiol.

Cwricwlwm o Gyfle

Ymrwymiad Ysgol-gyfan

37. Mae'n rhaid i'r ysgol-gyfan gyfrannu at yr ymrwymiad i gyflawni'r Safonau, gyda'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn dangos ymrwymiad iddynt. Rhaid i'r llywodraethwyr hefyd chwarae rhan. Un man cychwyn posibl yw i'r uwch dîm rheoli a'r cydgysylltydd disgyblion galluog drafod y safonau er mwyn gweld pa agweddau sydd eisoes yn cael sylw a pha feysydd ddylai gael blaenoriaeth nesaf. Y cam nesaf o bosibl fydd gwneud cyflwyniad i holl staff yr ysgol gan dynnu sylw at yr hyn y mae'r ysgol yn ei wneud yn barod. Bydd hyn yn rhoi hyder i'r staff. Byddai'n werthfawr awgrymu dros ba gyfnod y byddir yn datblygu hyn fel na fydd y staff yn teimlo bod pwysau ychwanegol arnynt.

Archwilio a Chynllunio Gweithredu

38. Erbyn y cyfnod hwn bydd angen edrych ar y Safonau yn fwy manwl gan ddefnyddio'r meini prawf fel fframwaith i greu Cynllun Gweithredu. Bydd rhaid i ysgolion restru tystiolaeth berthnasol i ddangos eu bod wedi cyflawni'r meini prawf. Mewn ysgolion uwchradd fe ddylai gwybodaeth i gefnogi'r archwiliad ddod o ystod eang o wahanol ffynonellau. Un strategaeth bosibl fyddai defnyddio cyfarfodydd staff neu gyfarfodydd adrannol er mwyn gwneud archwiliad o'r ysgol gyfan.

39. Dylai'r cynllun gweithredu roi sylw i feysydd lle nad oes gan ysgolion dystiolaeth ar hyn o bryd. Fe ddylai'r meini prawf ar gyfer y camau gweithredu a chyflawni fod yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS). Dylent ddatgan yn glir pwy fydd yn gwneud beth a sut y bydd yr ysgolion yn gwybod pan fyddant wedi eu cyflawni. Rhaid i'r amserlen fod yn realistig. I rai ysgolion bydd datblygu darpariaeth er mwyn cyflawni'r Safonau yn ymrwymiad mawr o safbwynt datblygu arferion gweithredu.

Casglu Tystiolaeth

40. Erbyn y cyfnod hwn, dylai ysgolion allu casglu tystiolaeth i ddangos sut y maent wedi bodloni'r meini prawf. Dylid annog yr holl staff i gyfrannu at gasglu'r dystiolaeth. Canllaw yn unig yw'r "Dystiolaeth Bosibl" a bydd gan ysgolion enghreifftiau eraill eu hunain. Nid tystiolaeth ysgrifenedig yw'r unig dystiolaeth dderbyniol. Gellir cynnwys ffotograffau, tapiau, adnoddau fideo etc. Rhaid i ysgolion egluro sut y mae'r dystiolaeth yn berthnasol i'r Safon a sut y mae'n cyflawni'r meini prawf. Mae rhai ysgolion wedi ei gweld yn werthfawr canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth ar gyfer un Safon ar y tro.

Goresgyn Anawsterau

41. Nid yw rheoli gweithredu menter ar draws ysgol gyfan yn dasg hawdd! Bydd yn cymryd amser i gael y staff i gyd i gytuno

Mae adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog yn gysylltiedig â chyd-destun ac ymhob ysgol bydd yna grŵp o ddisgyblion sydd angen cyfleoedd addysgol estynedig, ni waeth sut maent yn cymharu â disgyblion mwy galluog a thalentog mewn ysgolion eraill.

Cwricwlwm o Gyfle

a'u hargyhoeddi na fydd yn ychwanegu at eu llwyth gwaith, gan ddatblygu dealltwriaeth ysgol-gyfan o'r holl ystyriaethau sy'n ymwneud â darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog. Bydd yn rhaid i bwy bynnag sy'n arwain ar y Safonau o fewn yr ysgol gael amser neilltuol i oruchwylio'r cynllun gweithredu ac i gydgyssylltu'r gwaith o gasglu tystiolaeth. Bydd gweithio tuag at y Safonau yn arwain at drafodaeth ymhlith staff ar faterion yn ymwneud â disgyblion galluog, am y tro cyntaf erioed o bosibl. Mae trafod yn rhan werthfawr o'r broses, a bydd yn helpu i sefydlu faint o ddealltwriaeth sydd gan staff am yr hyn y mae'r ysgol yn ceisio ei gyflawni a phaham yr anelir at hynny. Mae'n bosibl y bydd y canlynol ymhlith yr ystyriaethau mwy cymhleth y bydd angen eu trafod.

Beth rydych chi'n ei feddwl wrth ddisgyblion 'Mwy galluog a thalentog' yng nghyd-destun eich ysgol chi? Beth fydd diffiniad eich ysgol o fwy galluog a thalentog?

42. Fe ddylai staff weithio gyda'i gilydd i ddrafftio diffiniad ymarferol ac fe allai gymryd tipyn o amser i ddod i gytundeb. Mae'n bosibl y bydd gan rai ysgolion ddiffiniad yn barod, yn eu polisi disgyblion galluog, a gellir ailymweld â'r diffiniad hwnnw. Byddai hefyd yn bosibl i staff ystyried diffiniadau penodol i bynciau. Y mae nifer o ddiffiniadau posibl ar gael i ysgolion eu defnyddio fel man cychwyn i lunio eu diffiniadau eu hunain. Hefyd, gallai fod yn werthfawr ystyried diffiniadau o ddeallusrwydd fel rhan o'r gwaith hwn. Mae'n bwysig i ysgolion gytuno beth yw eu dealltwriaeth o natur deallusrwydd - nad yw'n beth digyfnwid ac nad oes neb yn llwyr ymwybodol o botensial dysgu unrhyw unigolyn. I ddilyn hyn dylid cael trafodaeth ynglŷn â'r gwahanol ffyrdd sydd gan ysgolion o gydnabod hyn yn ymarferol ac fe allai ysgolion fod eisiau adnoddau'r awdurdod addysg lleol, neu ddefnyddio ymgynghorydd NACE i gymryd yr arweiniad mewn gwaith o'r fath. Hefyd, mae yna gyfoeth o adnoddau ynglŷn â disgyblion mwy galluog a thalentog, mewn print ac ar y we, i ysgolion eu defnyddio i ysgogi trafodaeth ymhlith staff. Ni ddylai ysgolion gymryd eu temtio i ruthro drwy'r cam hwn gan ei fod yn hanfodol i bopeth arall sy'n dilyn hynny. Nid oes unrhyw un diffiniad terfynol. Yr hyn sy'n bwysig yw'r broses o sicrhau nad yw staff yn glynu wrth stereoteip neu farn rhy gul.

Ystyriaethau mewn perthynas ag adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog

Llunio Cofrestr

43. Nid oes rhaid cael cofrestr ond bydd angen i ysgolion adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog er mwyn sicrhau eu bod yn monitro

Nid yw dynodi'r disgyblion yn ddigon ynddo'i hun a'i unig werth yw galluogi disgyblion galluog i symud ymlaen wrth i'r ysgol ddefnyddio'r wybodaeth.

Cwricwlwm o Gyfle

cynnydd yr unigolion ac ansawdd gyffredinol y ddarpariaeth ar eu cyfer. Faint o ddisgyblion ddylai gael eu nodi? A ddylai disgyblion symud oddi ar y gofrestr am unrhyw reswm? Os yw'r ysgolion wedi gweithio ar eu hegwyddorion sylfaenol bydd yn haws iddynt ateb y cwestiynau hyn. Man cychwyn da fyddai gofyn i'r staff "Pam mae angen llunio cofrestr?" Gofynnwch iddynt ymgymryd â thasg Plws, Minws a Diddorol, hynny yw nodi unrhyw agweddau cadarnhaol, negyddol neu ddiddorol ynglŷn â chael cofrestr. Buddiol yw dilyn hyn trwy ystyried cryfderau a chyfyngiadau'r gwahanol fathau o ddulliau meintiol ac ansoddol o adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog. Fe allai rhai o'r dulliau hyn fod yn cael eu defnyddio yn barod, er enghraifft

Asesiadau Athrawon, arsylwi mewn Dosbarth, enwebiadau gan Athrawon, rhestrau gwirio Generig, rhestrau gwirio penodol i Bynciau, enwebiadau gan Rieni neu Gymheiriaid, Profion, profion proffil Gallu ac yn y blaen

44. Fe ddylai'r broses uchod helpu'r staff i sylweddoli bod angen defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu er mwyn adnabod galluoedd a thalentau yr holl ddisgyblion. Yn y cam hwn y mae hefyd yn bwysig ystyried y disgyblion a all fod yn tangyflawni, yn aml gall diffyg cydymffurfio fod yn cuddio gallu. Mae'n bosibl bod rhai disgyblion galluog yn "gorffwys ar eu rhwyfau". Heb i ysgolion ddarparu ystod o gyfleoedd ynghyd â heriau ac ysgogiad digonol yn y dosbarth bydd rhai disgyblion yn colli'r cyfle i ddatblygu eu talent penodol, ac ni fyddant yn cael eu hysgogi'n ddigonol i ddangos beth y gallant ei gyflawni mewn gwirionedd.

Newid arferion

45. O ganlyniad i'w harchwiliad, mae'n bosibl y bydd gan ysgolion nifer o bwyntiau datblygu yn eu cynllun gweithredu. Gyda rhai o'r ystyriaethau hyn mae'n debyg y bydd angen i rai, os nad y cyfan o'r staff, ddatblygu'n broffesiynol. Bydd yn rhaid i ysgolion feddwl am hyfforddi staff er mwyn creu mwy o "her" yn y dosbarth neu i ymestyn neu gyfoethogi adnoddau a gweithgareddau yn ôl yr angen. Gallai hyn olygu hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol, yn yr awdurdod addysg lleol neu ddefnyddio ymgynghorwyr allanol. Mae'n bwysig nad yw'r Safonau yn cael eu gwahanu oddi wrth ddatblygiadau eraill mewn perthynas â dysgu ac addysgu yn yr ysgol, yn arbennig mewn ysgolion uwchradd lle mae hynny'n fwy tebygol o ddigwydd. Gallai rhwydweithio gydag ysgolion eraill fod yn werthfawr a dylai hynny gael pob anogaeth.

Atodiad 1

Offeryn Hunan Werthuso i Fodloni'r Safonau Ansawdd ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog

Safon 1: Strategaeth ar gyfer yr ysgol gyfan, gan gynnwys polisi a chynllun gweithredu er mwyn cynnal disgyblion mwy galluog a thalentog

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
<p>1.1 Mae'r ysgol yn ceisio creu awyrgylch/ethos lle mae cyflawniadau pawb yn cael eu gwerthfawrogi a llwyddiant yn cael ei ddathlu</p>	<p>Cyfarfodydd dathlu, arddangos gwaith disgyblion, tystysgrifau, gwobrau, seremonïau gwobrwyo, gwobrau sy'n cydnabod talentau, galluoedd a gweithgareddau y tu allan i'r cwricwlwm ac sy'n gynhwysol yn ddiwyllianol ac yn gymdeithasol Datganiad o Genhadaeth yr Ysgol</p>		
<p>1.2 Mae'r ymrwymiad i gynnal disgyblion mwy galluog a thalentog yn rhan hanfodol o'r strategaethau dysgu ac addysgu ac yn cael eu hadlewyrchu yn holl bolisiau eraill yr ysgol dros gyfnod o amser</p>	<p>Polisi Dysgu ac Addysgu Polisiau pynciau Llawlyfrau adrannol Polisiau eraill gan gynnwys asesiadau</p>		
<p>1.3 Mae gan yr ysgol strategaeth ysgol-gyfan gynhwysfawr ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • â nodau ac amcanion sy'n cysylltu â nodau ac amcanion yr ysgol ei hunan • sy'n diffinio disgyblion mwy galluog a thalentog yng nghyd-destun yr ysgol • sydd â strategaethau priodol i adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog • sy'n amlinellu'r ddarpariaeth a wneir gan yr ysgol • sy'n derbyn bod cefnogi disgyblion mwy galluog a thalentog yn gyfrifoldeb i'r holl staff • sy'n cynnwys holl egwyddor cyfle cyfartal 	<p>Polisi ar ddarparu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog Prosbectws yr Ysgol Cynllun datblygu'r ysgol Ystod (gweler Safon 2) Datganiad ynglŷn â darpariaeth Polisi gofal bugeiliol Cofnodion cyfarfodydd staff lle trafodir strategaethau Polisi ar gyfer Cynhwysiant a/neu Polisi Cyfle Cyfartal</p>		
<p>1.4 Mae gan yr ysgol gynllun gweithredu sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu, monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth</p>	<p>Cynllun gweithredu i hybu darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog Cynllun Datblygu'r Ysgol</p>		

Safon 2: Strategaethau a meini prawf ar gyfer dynodi

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
<p>2.1 Mae gan yr ysgol resymwaith eglur i adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog ac mae'r strategaeth yn gynhwysol ac:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn cwmpasu'r holl blant sydd â galluoedd a thalentau uwch na'r rhai a ganfyddir gan amlaf yn yr ysgol • yn cydnabod talentau penodol yn y celfyddydau a chwaraeon yn ogystal ag mewn pynciau academaidd • yn cydnabod bod darpariaeth yn rhan allweddol o adnabod • yn seiliedig ar ystod o feini prawf gwrthrychol • yn gofyn barn pawb sy'n gysylltiedig â'r plant gan gynnwys rhieni, gofalwyr, athrawon, cynorthwyyr addysgu, y disgyblion eu hunain, disgyblion eraill a phobl broffesiynol y bydd yr ysgol yn ymgynghori â hwynt 	<p>Polisi ynglŷn â darparu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog</p> <p>Polisi Cynhwysiant neu gyfle cyfartal</p> <p>Polisiau pwnc</p> <p>Datganiad Polisi Cwricwlwm yn dangos ehangder, cydbwysedd ac ystod y cyfleoedd</p> <p>Meini prawf penodol i'r pwnc yn ogystal â rhai cyffredinol</p> <p>Holiaduron disgyblion a/neu gyfweiliadau lled-strwythuredig</p> <p>Ffurflenni enwebu gan athrawon, rhieni/gofalwyr, cyfoedion</p> <p>Tystiolaeth o adolygiadau rheolaidd gydag athrawon a'r cydgysylltydd mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog</p>		
<p>2.2 Mae gan yr ysgol ystod o wahanol strategaethau i adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog ac mae'r strategaethau yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnwys pawb o'r staff • cynnwys ystod eang o wahanol gyfleoedd asesu 	<p>Polisi Asesu</p> <p>Ystod o strategaethau asesu</p> <p>Defnyddio arbenigedd arweinwyr pwnc</p> <p>Dadansoddi data ansoddol a meintioliol gan gynnwys profion/arsylwadau/dyfarmaniadau priodol</p>		

Safon 3: Targed ar gyfer gwella darpariaeth yr ysgol a pherfformiad disgyblion mwy galluog a thalentog

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
<p>3.1 Mae gan yr ysgol dargedau i wella ansawdd ac ystod ei darpariaeth i gynnal pob talent addawol er mwyn sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ehangder • dyfnder • cynnydd 	<p>Cynllun datblygu'r ysgol Polisi a chynllun gweithredu i ddarparu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog Adroddiad Blynyddol i Rieni Datganiad Cwricwlwm Cyfleoedd trwy'r ysgol i gyd Rhaglenni allgwrwicwlaidd Cyfleoedd cyfoethogi yn yr ysgol Cyfleoedd cyfoethogi yn y gymuned</p>		
<p>3.2 Mae gan yr ysgol dargedau CAMPUS i wella perfformiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y disgyblion mwyaf galluog • yr holl ysgol • disgyblion unigol 	<p>Targedau ar gyfer yr Ysgol Targedau Disgyblion Unigol Tystiolaeth o gynnydd tuag at dargedau yn cael ei fonitro a'i werthuso</p>		
<p>3.3 Mae'r ysgol yn olrhain cyraeddiadau'r disgyblion er mwyn sicrhau bod disgyblion mwy galluog a thalentog yn gwneud cynnydd priodol</p>	<p>Aseidiadau Athrawon Olrhain disgyblion</p>		
<p>3.4 Mae'r ysgol yn gofalu y defnyddir cofnodion/data i gefnogi cyfnodau pontio</p>	<p>Cofnodion pontio Cynllunio pontio</p>		
<p>3.5 Mae'r ysgol yn dadansoddi ei data ac yn cymharu perfformiad ag ysgolion tebyg</p>	<p>Data Ychwanegu Gwerth</p>		
<p>3.6 Mae athrawon yn defnyddio asesu ffurfiannol a marcio cadarnhaol i asesu'r camau nesaf yn nysg y disgybl</p>	<p>Aseiad Athrawon Llyfrau disgyblion Cofnodion athrawon Cynlluniau Anodedig</p>		
<p>3.7 Mae athrawon yn annog disgyblion mwy galluog a thalentog i asesu perfformiad eu hunain ac i osod targedau personol</p>	<p>Cofnodi humanasesiad Cyfraniad y disgyblion at adroddiadau Targedau disgyblion unigol</p>		

Safon 4a: Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o wahanol arddulliau dysgu, dulliau addysgu a strategaethau trefniadol i ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
4a.1 Mae polisi dysgu ac addysgu'r ysgol yn cynnwys:	Polisi Dysgu ac Addysgu Cwricwlwm yr Ysgol Llawlyfr adrannol Llawlyfr staff Cynlluniau gwaith a chynlluniau dysgu Arsylwi ar wersi Cynlluniau Anodedig Cofnodion asesu ffurfiannol Adroddiadau arolygwyr		
4a.1i. yn cydnabod yr angen i ddarparu ar gyfer ystod o wahanol arddulliau dysgu pob disgybl			
4a.1ii. yn hybu dysgu annibynnol			
4a.1iii. yn rhoi canllawiau ar ddarparu ystod o wahanol ddulliau dysgu			
4a.1iv. yn cynnwys strategaethau dysgu sy'n seiliedig ar asesiad ar gyfer dysgu	Cynlluniau bydymor a thymor canol sy'n cynnwys: Tasgau ymestyn/cyfoethogi Gweithgareddau i ddatblygu dysgu annibynnol		
4a.1v. yn cynnwys canllawiau ar wahaniaethu fel bod disgyblion mwy galluog a thalentog yn cael her yn eu gwersi	Tasgau datrys problemau/tasgau sy'n ymgorffori dewis Cyfleoedd i holi ar lefel uwch Tystiolaeth o gynllunio ar gyfer human adolygu ac adfyfrio i'r disgybl Canllawiau ar drefnu'r dosbarth Tystiolaeth o grwpio hyblyg, gwaith unigol, gwaith parau a gwaith ar y cyd		
4a.1vi. yn hybu addysgu disgyblion mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a sesiynau un i un			
4a.2 Mae darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog yn cael ei chydabod fel ffocws ym mhollisi'r ysgol ar gyfer monitro dysgu ac addysgu	Cael ei nodi fel ffocws yn y wers ffurflen arsylwi Ffurflenni wedi eu llenwi gan gynnwys sylwadau ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog		

Safon 4b: Mae'r cwricwlwm yn ddigon eang, dwfn a hyblyg i ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
4b.1 Mae gan yr ysgol ymrwymiad i gynnig cwricwlwm eang, cytbwys a hyblyg er mwyn cydnabod:	Cwricwlwm yr Ysgol		
4b.1.i. y bydd ystod eang o gyfleoedd yn helpu i adnabod galluoedd, talentau a sgiliau penodol	Prosbectws yr Ysgol Canllawiau adrannol, Cynlluniau gwaith Cyrsiau rhagflas Cyfleoedd dysgu mentro fel y gellir adnabod nodweddion arweinyddol, entrepreneuriaidd a rhyngbersonol		
4b.1.ii. bod angen cymryd hoff arddulliau dysgu'r disgyblion i ystyriaeth fel y gall disgyblion symud ymlaen ar wahanol raddfa ac ar hyd gwahanol lwybrau	Cwricwlwm Ysgol sy'n cynnwys modelau arloesol o ddysgu y tu allan i'r dosbarth ac a ddatblygir mewn cydweithrediad ag ysgolion/ colegau/Addysg Uwch/ partneriaethau cyflogwyr. Unedau galwedigaethol i hybu dysgu ar raglenni academaidd		
4b.1.iii. bod angen i'r holl ddisgyblion gael ystod eang o brofiadau dysgu gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith	Cysylltiadau â phartneriaid eraill gan gynnwys ysgolion, colegau, clybiau a chyrrff cenedlaethol ar gyfer chwaraeon a'r celfyddydau, y gymuned a chyflogwyr. Rhaglen profiad gwaith ac adroddiadau. Adborth gan bartneriaid a chyflogwyr		
4b.1.iv. bod creadigrwydd a menter yn bwysig ym mhob agwedd ar ddysgu	Cynlluniau gwaith, Cynlluniau, Cwricwlwm yr Ysgol Polisi Dysgu ac Addysgu		

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
4b. 1v. bod technolegau newydd yn cynnig y potensial i ehangu'r cyfleoedd dysgu	Polisi Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Cytundebau Partneriaeth Cofnodion cyflawniad		
4b. 1vi. y dylid rhoi cyfleoedd i gymryd risg	Cynlluniau gwaith, Cynlluniau, Cwricwlwm yr Ysgol Polisi dysgu ac addysgu, rhaglenni cyfoethogi, profiad gwaith Dysgu ar y cyd Gweithgareddau Risg a Her Cyfleoedd i fod yn feddylwyr annibynnol gweithredol		

Safon 4c: Mae'r ddarpariaeth yn rhoi sylw i ofal bugeiliol disgyblion mwy galluog a thalentog

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
4c.1 Mae gan yr ysgol raglen o gynhaliadaeth fugeiliol sy'n:	Polisi PSHE Rhaglenni gofal bugeiliol		
4c.1.i. darparu mentora a chymorth priodol i ddisgyblion mwy galluog a thalentog	Mentoriaid disgyblion Tiwtoriaidau Gwasanaethau cwnsela		
4c.1.ii. yn darparu adolygiadau rheolaidd o agweddau disgyblion tuag at ddysgu	Rhaglen adolygu Presenoldeb Cyfraddau cwblhau cyrsiau		
4c.2i Mae Addysg Gyfaoedd a Chanllawiau yn rhoi cyfle i hunan-ddatblygu, archwilio gyfaoedd a sgiliau rheoli gyfaoedd <i>Noder: Mae'r rhan fwyaf o hyn yn berthnasol i'r sector uwchradd ond dylai ysgolion allu dangos bod disgyblion yn deall beth mae oedolion yn ei wneud a'u bod yn deall yr ystod o bosibiliadau sydd ar gael iddynt hwythau</i>	Rhaglen cyngor gyrfaoel yn gysylltiedig ag ystod o wahanol ddarparwyr Cyrchfan disgyblion mwy galluog a thalentog Lleoliadau gwaith Adborth disgyblion ynglŷn â chyngor gyrfaoel Profiad o'r byd gwaith hynny yw ymweliadau ac ymwelwyr Gweithgareddau mân-fenter Cyd-destunau dysgu mewn bywyd go iawn		
4c.2ii. Mae canllawiau gyrfaoel yn ysbrydoli'n briodol	Gweithgareddau busnes a menter Siaradwyr ysbrydoledig Cyrchfannau disgyblion mwy galluog a thalentog		

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
4c.2.iii. Mae disgyblion sydd â thalentau yn cael canllawiau priodol ynglŷn â datblygiad parhaus eu talentau a'u cyfleodd yn y tymor hir	Cyfweliadau â disgyblion Strategaethau pontio Cynllun pontio		
4c.3 Mae gan yr ysgol strategaethau i gefnogi pontio i gyfnod nesaf addysg, addysg uwch a gwaith	Polisi pontio/dogfennau trosglwyddo Cofnod y Disgybl		
4c.4. Mae disgyblion mwy galluog a thalentog yn cael eu hannog i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r ysgol a'r gymuned	Tystiolaeth o gymryd rhan mewn gweithgareddau elusennol a chymunedol Cymryd rhan weithgar yng Nghyngor yr Ysgol Cymryd rolau arweiniol Mentora dysgwyr galluog lau		

Safon 5: Adolygiadau rheolaidd i ganfod unrhyw dangyflawni ac i gynnig cynhaliatheth i ddisgyblion unigol

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
5.1 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog a'u cynnydd yn cael ei hadolygu a'i thrafod gan yr holl staff	Cynradd - cyfarfod tymhorol y staff Uwchradd - tymhorol yr adrannau/ blynyddol yr ysgol gyfan		
5.2 Mae'r ysgol yn adolygu'n rheolaidd berfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion er mwyn gofalu nad oes unrhyw dangyflawni sylweddol er enghraifft yn ôl rhyw neu grwpiau ethnig	Dadansoddiad o gyrhaeddiad disgyblion fesul grŵp Lle gwelir bod tangyflawni fe osodir targedau a chytuno ar gamau gweithredu		
5.3 Mae gan yr ysgol systemau priodol i ganfod tangyflawniad	Arsylwi athrawon Olrhain disgyblion Canlyniadau profion Rhestrau gwirio cyffredinol Cyfweiliadau gyda'r disgybl/rhieni		
5.4 Mae gan ddisgyblion mwy galluog a thalentog sy'n tangyflawni dargedau a nodau dysgu penodol gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> targedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol) manylion am y camau a gymerir i helpu disgyblion i gyflawni eu targedau aminelliad yn y cynllun o'r sgiliau sydd i gael eu dysgu rhaglen astudiaeth briodol i'r unigolyn y mae'r unigolyn wedi helpu i'w ddatblygu 	Cofnod o'r cyfarfodydd adolygu Targedau'r ysgol, y grŵp neu'r unigolyn a chynlluniau gweithredu		

Safon 6: Ymrwymiad i wella sgiliau holl staff yr ysgol er mwyn diwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
6.1 Mae cydgysylltydd ysgol gyfan ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog	Swydd ddisgrifiad Llawlyfr cydgysylltydd		
6.2 Mae hyfforddiant staff yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • strategaethau ar gyfer adnabod disgyblion galluog • asesiad ffurfiannol • strategaethau i ddarparu her a chynhaliueth priodol 	Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • cyrsiau allanol • cyrsiau hirach wedi eu hachredu • darllen • ymchwil gweithredol 		
<ul style="list-style-type: none"> • strategaethau i ddatblygu/gwella hunan-barch disgyblion • gwahaniaethu • arddulliau dysgu • Sgiliau holi • sgiliau meddwl • sgiliau datrys problemau 	<ul style="list-style-type: none"> • gefeillio/gwaith grŵp gydag ysgolion eraill • cyfarfodydd staff • llyfrgell staff gydag ystod o ddeunyddiau i hybu syniadau • diwrnodau HMS • cyfleoedd i staff roi adborth o'u cyrsiau hyfforddi 		
6.3 Mae datblygu staff yn dangos cynnydd ac yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion	Proffiliau datblygu staff unigol Rheoli Perfformiad/Gwerthuso Polisi a chofnodion		
6.4 Mae perfformiad disgyblion mwy galluog a thalentog yn destun trafodaethau rheolaidd gan staff	Cofnodion cyfarfodydd staff		

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
6.5 Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yn rhan o'r rhaglen cynefino staff newydd ac mae gwybodaeth am bolisi ac arferion yr ysgol yn y llawlyfr staff	Raglen gynefino Llawlyfr staff Llawlyfrau adrannol Rhwydweithio, cefnogaeth allanol, aelodaeth o gyrrff cenedlaethol		
6.6 Mae staff cymorth yn cael hyfforddiant a chysiau datblygu priodol	Rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus		

Safon 7: Mae gan yr ysgol raglenni i gefnogi disgyblion eithriadol o alluog

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
7.1 Mae disgyblion eithriadol o alluog yn cael eu hadnabod	Cofnodion disgyblion		
7.2 Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni unigol i bob disgybl eithriadol o alluog	Rhaglenni a chynlluniau unigol		
7.3 Mae ystod o strategaethau dysgu wedi cael eu nodi i gyflawni anghenion disgyblion eithriadol o alluog	Polisi ynglŷn â darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog Polisi Dysgu ac Addysgu Arsylwi gwersi		
7.4 Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill i gynnal disgyblion eithriadol o alluog gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> cysylltiadau â chyfnodau addysgol eraill ac Addysg Uwch cymorth ar-lein cysylltiadau gyda darparwyr y tu allan i'r ysgol a gyda chyrrff cenedlaethol dosbarthiadau meistr 	NACE Ysgol Babanod i Ysgol Iau Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd Ysgol Uwchradd i Addysg Uwch Cysylltiadau rhyngrwyd Cymdeithasau Arbenigol gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth, y celfyddydau		

Safon 8: Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau priodol gan gynnwys TGCh

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
8.1 Mae adnoddau dysgu ac addysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gynnal disgyblion mwy galluog a thalentog ym mhob maes o'r cwricwlwm	Archwiliad o adnoddau gan gynnwys adnoddau athrawon ar gyfer pob maes o'r cwricwlwm Cynlluniau Dysgu Arsylwi yn y dosbarth		
8.2 Mae adnoddau dysgu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y cydgysylltydd disgyblion mwy galluog a thalentog i ofalu eu bod yn diwallu anghenion disgyblion ac yn rhoi her ddigonol yn ogystal â bod yn addas ar gyfer eu hoedran	Newid testunau ar gyfer darlennwyr iau Adnoddau mathemateg gyda llai o destunau ysgrifenedig Adnoddau pwnc sy'n datblygu sgiliau lefel uwch a sgiliau datrys problemau Rhaglenni dysgu seiliedig ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu Adnoddau a chyfleusterau chwaraeon a chelf		
8.3 Mae gan lyfrgell yr ysgol lyfrau a fydd yn diwallu anghenion pob lefel gallu yn yr ysgol	Ystod eang o lyfrau canllawiau ynglŷn â defnyddio adnoddau'r llyfrgell ar gael i ddisgyblion ac athrawon		
8.4 Mae gan y disgyblion fynediad annibynnol at lyfrgell ac at adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Anogir hwy i ddefnyddio'r adnoddau hyn ar gyfer astudiaeth breifat, gan gynnwys cyn ac ar ôl ysgol	Polisi llyfrgell Polisi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu Amserlenni		
8.5 Mae technoleg yr ysgol yn cael ei defnyddio i gynnal disgyblion mwy galluog a thalentog	Mynediad i dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu tu allan i'r gwersi TGCH		
8.6 Mae'r ysgol yn dysgu sgiliau astudio i'r disgyblion er mwyn eu hannog i weithio'n annibynnol	Polisi'r cwricwlwm Polisi Dysgu ac Addysgu Polisi ar sgiliau trawsgwricwlaidd		
8.7 Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau athrawon i gefnogi cynllunio ac arloesi	Llyfrgell y staff		

Safon 9a: Gwrando ar farn pobl ifanc mwy galluog a thalentog a chymryd ystyriaeth ohonynt gan eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
<p>9a.1 Mae gan yr ysgol strategaethau i wrando'n rheolaidd ar farn disgyblion mwy galluog a thalentog ynglŷn â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod yn ddisgybl mwy galluog a thalentog yn eu sefydliad • beth sy'n eu helpu i ddysgu • beth sy'n eu rhwystro rhag cyflawni • beth yw eu dyheadau 	<p>Arolygu disgyblion Cyfweild disgyblion Cyfweiliadau gyrfaoedd Diwrnodau adolygu academiaidd Trafodaethau grŵp ffocws Adroddiadau arolygu Grwpiau cynrychioli disgyblion</p>		
<p>9a.2 Mae'r ysgol wedi gweithredu ar farn y disgyblion mwy galluog a thalentog</p>	<p>Adborth i'r uchod Enghreifftiau o gamau gweithredu a'u heffaith</p>		
<p>9a.3 Mae disgyblion mwy galluog a thalentog yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ynglŷn â chyflawni</p>	<p>EEPs/Gosod targedau Cyfleoedd dysgu hunangyfeirio Dysgu gartref/hunanddysgu Aseiniadau/gwaith cwrs</p>		

Safon 9b: Gwranddo ar farn rhieni/gofalwyr pobl ifanc mwy galluog a thalentog a chymryd ystyriaeth ohonynt, gan eu cadw yn hysbys a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am gefnogi dysgu eu plentyn y tu allan i'r ysgol

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
9b.1 Ym mhrosbectws yr ysgol ceir gwybodaeth ynglŷn â disgyblion mwy galluog a thalentog a'r strategaethau y mae'r ysgol yn eu defnyddio i'w cynnal	Prosbectws yr ysgol Strategaethau i ymgysylltu â rhieni anodd eu cyrraedd		
9b.2 Gwahoddir rhieni a gofalwyr i enwebu disgyblion sy'n fwy galluog a thalentog	Ffurflenni enwebu		
9b.3 Mae'r ysgol yn mynd ati i ofyn barn rhieni a gofalwyr disgyblion mwy galluog a thalentog ynglŷn â'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer	Arolygon rhieni Grwpiau ffocws Cyfarfodydd rhieni athrawon		
9b.4 Mae rhieni a gofalwyr yn cael canllawiau i ddweud sut i gynnal disgyblion mwy galluog a thalentog yn y cartref	Gweithdai, cylchlythyrau, canllawiau		
9b.5 Mae rhieni a gofalwyr disgyblion a nodir yn rhai mwy galluog a thalentog yn cael gwahoddiad i gyfrannu at adolygu cynnydd a gosod targedau	Cyfarfodydd rhieni athrawon Adroddiadau Cofnod o gyfleoedd/ymweliadau eraill (drws agored)		
9b.6 Mae rhieni a gofalwyr yn cael gwybodaeth am gyrf cenedlaethol a rhwydweithiau lleol gan gynnwys cymdeithasau chwaraeon	Enghreifftiau o wybodaeth a ddarperir i rhieni a gofalwyr ynglŷn â ffynonellau eraill o gynhaliach		
9b.7 Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu cadw'n hysbys am fentrau lleol a chenedlaethol megis ysgolion haf a dosbarthiadau meistr	Cylchlythyrau, gwybodaeth am wefannau, diweddariadau, llyfrynau a thafleuni		

Safon 9c: Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
9c.1 Mae prospectws yr ysgol yn cynnwys gwybodaeth am ddisgyblion mwy galluog a thalentog ac am strategaethau a ddefnyddir gan yr ysgol i'w cynnal	Prosbectws yr ysgol Tystiolaeth bod gwybodaeth yn cael ei rhannu trwy gofnodion cyfarfodydd cyfathrebu		
9c.2 Mae'r ysgol yn ceisio datblygu darpariaeth gyson ar gyfer disgyblion ar draws ei phartneriaethau gan gynnwys partneriaethau busnes	Cytundebau partneriaeth Polisi disgyblion mwy galluog a thalentog y cyd Rhannu HMS		
9c.3 Mae'r ysgol yn ceisio gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion mwy galluog a thalentog trwy rannu adnoddau, cyfleusterau ac arbenigedd	Cytundebau partneriaeth Amserlenni cyfatebol Archwiliad o adnoddau a chyfleusterau		
9c.4 Mae'r ysgol yn cymryd i ystyriaeth farn partneriaid a rhanddeiliaid wrth gynllunio eu darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog	Arolygon Trafodaethau ffocws Cofnodion cyfarfodydd Adborth gan bartneriaid busnes		
9c.5 Mae'r ysgol wedi datblygu ystod o bartneriaethau gydag ysgolion a cholegau eraill er mwyn cyflawni anghenion disgyblion galluog, dawnus a thalentog	Cyfarfodydd cydgysylltydd mwy galluog a thalentog Grwpiau Cydgysylltu/Clwstwr		
9c.6 Mae'r ysgol yn gweithredu gyda gwasanaethau eraill i ofalu bod cymorth integredig ar gael i ddisgyblion mwy galluog a thalentog, ac yn arbennig i ddisgyblion sy'n agored i niwed	Strategaethau clir yn cysylltu â gwasanaethau plant eraill gan gynnwys gwasanaethau therapiwtig Polisi/strategaeth ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol, Lleiafrifoedd Ethnig, Teithwyr, Plant sy'n Derbyn Gofal Cofnodion cyfarfodydd gwasanaethau ar y cyd Mentoriaid dysgu		

Safon 10: Gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro'r cynllun gweithredu ac asesu effeithiolrwydd polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog

Meini Prawf	Tystiolaeth Bosibl	Camau Gweithredu	Sylwadau
10.1 Mae'r ysgol yn adolygu ei pholisi yn rheolaidd i ofalu ei bod yn diwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog	Cylch o adolygiadau polisi a datblygiadau Trafodaethau staff		
10.2 Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd	Adborth ynglŷn â'r cynllun gweithredu Cynllun datblygu'r ysgol		
10.3 Mae dysgu ac addysgu yn cael ei fonitro trwy:	Polisi Monitro Rhaglen fonitro gynlluniedig Dysgu ac Addysgu Cofnod o arsylwi gwersi Ffurflen arsylwi gwersi sy'n nodi'n glir y strategaethau i ddarparu her briodol mewn gwersi Cofnodion samplu gwaith Tystiolaeth anysgrifenedig arall gan gynnwys ffotograffau, dyddiaduron ac yn y blaen Portffolio o waith wedi ei safoni Cofnod o sesiynau safoni Gweithdrefn i fonitro cynllunio Cofnodion craffu Cofnodion trafodaethau gyda disgyblion		
<ul style="list-style-type: none"> • arsylwi gwersi • samplu gwaith • safoni gwaith • craffu ar gynllunio • trafodaethau gyda disgyblion 			
10.4 Bydd y llywodraethwyr yn cael adroddiadau rheolaidd ynglŷn ag effeithiolrwydd polisiâu a gweithdrefnau'r ysgol (yn flynyddol o leiaf)	Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yn adrodd yn ôl i'r llywodraethwyr Adroddiadau gan y cydgysylltydd disgyblion mwy galluog a thalentog		
10.5 Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r polisi trwy ddyrannu adnoddau priodol	Cofnodion Cyfarfodydd Llywodraethwyr Cynllun Datblygu'r Ysgol Cynllun Cyllideb yr Ysgol		

Atodiad 2 - Cynllun Gweithredu

Ysgol:	Dyddiad:
<p>Meini Prawf Llwyddiant Cyffredinol</p> <p>Sut y bydd llwyddiant yn edrych yn ein hysgol ni</p>	
<p>Cyfrifoldeb Cyffredinol</p>	
<p>Terfynau amser</p> <p>Ar gyfer cwblhau'r prosiect cyfan</p>	
<p>Gwerthusiad</p>	

Safonau	Materion allweddol	Camau Gweithredu Gofynnol	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Adnoddau	Monitro
Safon 1 - Meini Prawf Llwyddiant						
Strategaeth ysgol gyfan, gan gynnwys cynllun gweithredu, i gefnogi disgyblion mwy galluog a thalentog						
Safon 2 - Meini Prawf Llwyddiant						
Nodi strategaethau a meini prawf						
Safon 3 - Meini Prawf Llwyddiant						
Targed ar gyfer gwella darpariaeth yr ysgol a pherfformiad disgyblion mwy galluog a thalentog						

Safonau	Materion allweddol	Camau Gweithredu Gofynnol	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Adnoddau	Monitro
Safon 4a - Meini Prawf Llwyddiant						
Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o arddulliau dysgu, dulliau gweithredu a strategaethau sefydliadol i ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog						
Safon 4b - Meini prawf llwyddiant						
Mae'r cwricwlwm yn cynnig ehangder, dyfnder a hyblygrwydd i ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog						
Safon 4c - Meini prawf llwyddiant						
Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys gofal bugelliol disgyblion mwy galluog a thalentog yn ogystal â'u hanghenion dysgu						

Safonau	Materion allweddol	Camau Gweithredu Gofynnol	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Adnoddau	Monitro
Safon 5 - Meini prawf llwyddiant						
Adolygiadau rheolaidd i nodi unrhyw dangyflawni ac i roi cymorth i ddisgyblion unigol						
Safon 6 - Meini prawf llwyddiant						
Ymrwymiad i wella sgiliau holl staff yr ysgol er mwyn diwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog						
Safon 7 - Meini prawf llwyddiant						
Mae gan yr ysgol raglenni i gynnal disgyblion eithriadol o alluog						
Safon 8 - Meini prawf llwyddiant						
Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau priodol gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu						

Safonau	Materion allweddol	Camau Gweithredu Gofynnol	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Adnoddau	Monitro
Safon 9a - Meini prawf llwyddiant						
Gwranddo ar bobl ifanc mwy galluog a thalentog a chymryd eu barn i ystyriaeth gan eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain						
Safon 9b - Meini prawf llwyddiant						
Gwranddo ar farn rhieni a gofalwyr pobl ifanc mwy galluog a thalentog a chymryd eu barn i ystyriaeth, gan eu cadw yn hysbys a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am gefnogi dysg eu plentyn tu allan i'r ysgol						
Safon 9c - Meini prawf llwyddiant						
Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog						
Safon 10 - Meini prawf llwyddiant						
Gweithdrefn effeithiol ar gyfer monitro'r cynllun gweithredu ac asesu effeithiolrwydd polisi yr ysgol i ddarparu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog						